

Y PASG CYNTAF A'R FEIRWS.

Emyn: 301' *O Grist, Ffisigwr mawr y byd.'*

Darlleniadau: Exodus 12:21-27; Luc 22:7-20.

'Pan ddaeth yr awr, cymerodd ei le wrth y bwrdd, a'r apostolion gydag ef. Meddai wrthynt, "Mor daer y bûm yn dyheu am gael bwyta gwledd y Pasg hwn gyda chwi cyn imi ddioddef?" 14/15.

Gweddi: O Dduw, cadw ni oll yn ddiogel tra bod y feirws corona ar waith yn ein gwlad a'n byd. Cofiwn yn arbennig am y rhai sydd yn fregus eu hiechyd a'r sawl sydd yn oedrannus ac yn gorfod hunan ynysu yn awr. Amen.

Neges: *'Nid oes neb ohonoch i fynd allan trwy ddrws ei dŷ hyd y bore,'* Exodus 12:22.

Dyma defosiwn dyddiol gan y Mudiad yn ddiweddar.
[Mae'n bwysig cydnabod ein ffynonellau!]

Yr wythnos diwethaf cyhoeddodd y Prif Weinidog mesuriadau newydd er mwyn ceisio atal lledaeniad y feirws corona. Dyma nhw yn fras:

- Siopa am bethau angenrheidiol yn unig.
- Un math o ymarfer corff y dydd.

- Hawl i fynd allan i nôl moddion/i ofalu am y bregus.
- Hawl i deithio i'r gwaith, os ydyw'n hanfodol.

Mae hyn yn gwneud i ni feddwl am hanes pobl Israel yn yr Aifft. Roedd Duw wedi cyhoeddi pla ofnadwy i ddilyn y 9 pla cyntaf – sef lladd pob mab hynaf yn y wlad. Ar noson arbennig byddai angel dinistriol yn dod i weithredu'r pla olaf. Ond roedd yr Arglwydd wedi darparu ffordd i blant Israel gael eu diogelu rhag y pla. Roedd hyn yn cynnwys cloi eu hunain yn eu tai o amser machlud haul hyd y bore. **"Nid oes neb ohonoch i fynd allan trwy ddrws ei dŷ hyd y bore!"** Yn ogystal, roedd rhaid lladd oen blwydd oed a phaentio rhywfaint o waed yr oen o gwmpas y drws. Pan fyddai'r angel yn gweld y gwaed o amgylch drws y tŷ byddai'n pasio heibio (Passover!).

Mae hyn yn gysgod clir iawn o Efengyl Iesu Grist. Ef yw **"Oen Duw sy'n cymryd ymaith bechod y byd."**

- Roedd yr oen yn ddi-nam; mae Iesu yn gwbl ddi-fai.
- Rhaid lladd yr oen; aeth Oen Duw i'r groes yn ein lle.
- Rhaid paentio'r gwaed o gwmpas y drws; rhaid i ni gredu'n bersonol yn aberth Crist yn ein lle.

Gwaed Crist sydd yn dwyn maddeuant i ni. Boed i ni wneud yn siwr ein bod wedi'n cloi i mewn yng Nghrist.

